

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Perfformiad

Dyddiad: Dydd Gwener, 12
Gorffennaf 2019

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD** am **10.00 am** ar **DYDD IAU, 18 GORFFENNAF 2019** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Cynhelir sesiwn frifio ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig am 9.15am, yn union o flaen y prif gyfarfod. Taer erfynnir ar i aelodau wneud pob ymdrech i fynychu'r sesiwn hon.

Yn gywir iawn

G. Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHERURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2019 (copi ynghlwm).

10.05am – 10.10am

5 RHEOLAETH CYRFF LLYWODRAETHOL YSGOLION (Tudalennau 17 - 32)

I ystyried adroddiad gan y Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg (copi ynghlwm) ar Reolaeth Cyrff Llywodraethol Ysgolion sy'n gofyn i'r Pwyllgor drafod mesurau arfaethedig i geisio sicrhau fod cyrff llywodraethol ysgolion yn effeithiol and yn cydymffurfio â deddfwriaeth

10.10am – 11am

EGWYL 11am - 11.15am

6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 33 - 54)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

11.15am – 11.45am

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

11.45am – 12pm

RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL

Dim

ELODAETH

Cynghorwyr

Ellie Chard
Ann Davies
Martyn Holland
Hugh Irving
Huw Jones
Kathleen Jones

Geraint Lloyd-Williams
David Lloyd
Arwel Roberts
Neil Roberts
Peter Scott
David Williams

Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio dros Addysg (Eitem Agenda Rhif 5 yn unig)

Kathleen Jones
David Lloyd

Neil Roberts

COPIAU I'R:

Pob Cynghorydd i gael gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Code of Conduct for Members

DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

I, *(name)*

a *member/co-opted member of
*(*please delete as appropriate)*

Denbighshire County Council

CONFIRM that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-

*(*please delete as appropriate)*

Date of Disclosure:

Committee *(please specify)*:

Agenda Item No.

Subject Matter:

Nature of Interest:

*(See the note below)**

Signed

Date

*Note: Please provide sufficient detail e.g. 'I am the owner of land adjacent to the application for planning permission made by Mr Jones', or 'My husband / wife is an employee of the company which has made an application for financial assistance'.

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun on Dydd Iau, 13 Mehefin 2019 at 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Martyn Holland, Hugh Irving (Is-Gadeirydd), Huw Jones (Cadeirydd) a/ac Arwel Roberts

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Rheolwr Tim Cynllunio Strategol (NK), Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (EH), Arweinydd Tim Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IMc), Cydlynnydd Craffu (RE), Gweinyddwr Pwyllgor (HB).

YMDDIHEURIADAU

Apologies for absence were received from Y Cynghorydd Ann Davies, Y Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams, Y Cynghorydd Peter Scott a/ac Y Cynghorydd David Gwyn Williams

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Ann Davies, Geraint Lloyd-Williams, Peter Scott a David Williams, ynghyd â'r Aelod Arweiniol y Cynghorydd Bobby Feeley.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Amherthnasol

Roedd y Cadeirydd yn canmol y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau'r Amgylchedd a'i dîm am y gwaith a wnaed ganddynt yn ystod y tywydd gwael diweddar a hefyd drwy gydol y flwyddyn. Roedd y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr yn ategu ei werthfawrogiad.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Roedd y Cadeirydd yn gofyn am enwebiadau gan y Pwyllgor ar gyfer swydd Is-Gadeirydd. Roedd y Cynghorydd Hugh Irving wedi mynegi diddordeb mewn bod yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor am dymor arall ac wedi cyflwyno CV a ddosbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor. Cafodd y Cynghorydd Irving ei enwebu a'i eilio ar gyfer y swydd, ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill ac roedd y Pwyllgor yn unfrydol:

PENDERFYNWYD: - penodi'r Cynghorydd Hugh Irving yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20.

Diolchodd y Cynghorydd Hugh Irving i'r aelodau am eu cefnogaeth.

4 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2019.

Materion yn Codi -

Tudalen 10 - Cyrff Llywodraethu Ysgolion – cadarnhaodd y Cadeirydd bod adroddiad ar Reoli Cyrff Llywodraethu Ysgolion wedi'i drefnu ar gyfer cyflwyniad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad.

Tudalen 13 – Adolygiad Gwasanaethau Tai – tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at y rhifyn diweddaraf o'r Newyddlen Gwasanaethau Tai a anfonwyd at bob aelod. Roedd yn canmol y Gwasanaeth am gynhyrchu gohebiaeth mor ddiddorol a defnyddiol i denantiaid.

PENDERFYNWYD:- y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Craffu ar Berfformiad a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2019 fel cofnod cywir.

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2018/19

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau yr adroddiad drafft (dosbarthwyd yn flaenorol) oedd yn rhoi trosolwg gonest i'r cyhoedd o ddarpariaeth gwasanaeth gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn ystod 2018-19 ac yn gofyn am farn y Pwyllgor ar asesiad y Cyfarwyddwr o ddarpariaeth gwasanaeth a'r heriau gerbron cyn cyflwyno'r adroddiad i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Roedd yr adroddiad, a luniwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, yn ofyniad statudol o dan Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a fwriadwyd i ddangos i'r cyhoedd fod gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i gryfderau, ac yn bwysicach na dim ei wendidau a'r heriau o'i flaen.

Wrth gyflwyno'r adroddiad roedd y Cyfarwyddwr yn talu teyrnged i ymroddiad ac ymrwymiad staff ar bob lefel o fewn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant. Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i gadw'r adroddiad yn fyr ac yn hawdd i'w ddarllen, oherwydd yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir i bob grŵp oedran gan y Gwasanaeth roedd hyn yn hynod anodd i'w gyflawni. Diolchodd y Cyfarwyddwr i aelodau etholedig am y gefnogaeth barhaus a ddarparwyd i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y sir a sicrhau nad oedd y gwasanaethau pwysig hyn yn cael eu defnyddio fel arf gwleidyddol gan unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau ac Aelod Arweiniol y Cabinet dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd (Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yn methu bod yn bresennol yn anffodus oherwydd ymrwymiad portffolio arall):

- hysbyswyd, o ran yr 'Arolwg Dweud eich Dweud' roedd 71% o blant yn yr arolwg wnaeth ddweud eu bod yn hapus gyda'r bobl yr oeddent yn byw gyda nhw yn cyfateb i 7 o blant.
Tra ar yr olwg gyntaf, nad oedd hyn yn ymddangos yn gadarnhaol iawn roedd yn bwysig cofio bod y rhain yn blant oedd wedi eu symud oddi wrth eu rhieni a'i rhoi mewn gofal maeth ar gyfer eu diogelwch eu hunain.
Roeddent felly yn mynd drwy brofiad trawmatig oedd yn achosi gofid sylweddol iddynt. Roedd lle yr oedd plant yn cael eu lleoli ar ôl cael eu symud oddi wrth eu rhieni yn dibynnu ar yr amgylchiadau dros eu symud.
Weithiau byddai'n briodol eu lleoli gydag aelodau o'r teulu neu gyda ffrindiau'r teulu, ar adegau eraill byddai er eu budd pennaf i gael eu lleoli gyda gofalwyr maeth. Roedd pob achos yn cael ei asesu yn ôl ei deilyngdod, a'r penderfyniad yn cael ei wneud gyda budd pennaf y plentyn mewn golwg. Nid oedd goblygiadau cost eu lleoliad byth yn ffactor. Er nad oedd gan y Cyngor unrhyw gartrefi plant ei hun, roedd yna nifer o gartrefi preifat yn gweithredu yn y sir ac roedd un arall oedd yn bwriadu mabwysiadu dull newydd a ffres i ofalu am blant sy'n derbyn gofal yn aros i weithredu ei drwydded;
- dywedwyd er bod y Cyngor yn anelu i gael ei blant sy'n derbyn gofal wedi eu cofrestru gyda deintydd o fewn tri mis ohonynt yn symud i ofal nid oedd hyn bob amser yn bosibl, gan fod ganddynt anghenion eraill mwy dwys o bosibl oedd angen eu diwallu o fewn tri mis o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal;
- dywedwyd ei bod yn galonogol dweud bod cyllid trawsnewid Llywodraeth Cymru wedi'i sicrhau yn rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru at ddiben sefydlu canolfan asesu plant a datblygu gwaith Anableddau Dysgu.
Roedd Gogledd Cymru yn unigryw o ran nodi a sicrhau cyllid ar gyfer datblygu gwaith anableddau dysgu;
- cadarnhawyd bod proffil 'diogelu' ar draws y Cyngor wedi codi'n eithaf sylweddol yn y blynyddoedd diweddar.
Roedd gan y Cyngor Bolisi Diogelu Corfforaethol yr oedd disgwyl i holl staff gadw ato, roedd gan bob Gwasanaeth ei Swyddog Diogelu penodedig ei hun oedd yn adrodd i'w Gwasanaeth ar ddarpariaeth hyfforddiant ac ati ac oedd yn gyfrifol am adrodd i'r Bwrdd Diogelu ar gydymffurfio ac ar faterion oedd yn achosi pryder o fewn eu Gwasanaethau. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal a'u monitro yn rheolaidd ac ati.
Roedd yn ofynnol i holl staff y Cyngor hefyd gwblhau modiwlau e-ddysgu ar Ddiogelu a Thrais yn Erbyn Merched. Roedd pob un o'r mesurau hyn yn ychwanegol at gyfrifoldebau diogelu statudol y Cyngor. Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu dull corfforaethol ar gyfer diogelu, o ganlyniad roedd cyfrifoldeb diogelu yn ymddangos o fewn cyfrifoldeb tri deilydd portffolio'r Cabinet – Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth a'r Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel;

- cadarnhawyd bod gan y Cyngor fewnbwn strategol a gweithredol lleol i waith Heddlu Gogledd Cymru yn ymwneud â gwaith camddefnyddio sylweddau 'Llinellau Cyffuriau'.
Roedd rhyngweithiad y Cyngor gyda'r gwaith hwn wedi'i ddangos i'r Pwyllgor mewn ffurf nifer o enghreifftiau diweddar o waith a wnaed gyda sefydliadau partner. Pwysleisiwyd bod 'plant' oedd yn ymwneud ag ymchwiliadau 'Llinellau Cyffuriau' eu hunain yn ddioddefwyr ac yn hynod fregus. O ganlyniad, gwnaed pob ymdrech i'w cefnogi a'u diogelu;
- eglurwyd, o ran 'Addysg Ddewisol yn y Cartref', roedd Sir Ddinbych yn un o'r awdurdodau lleol gorau am adrodd yn gywir ar y ffigyrau hyn, roedd gan rai awdurdodau dueddiad i guddio'r ffigyrau.
Yn y blynyddoedd diweddar, roedd y Cyngor wedi ymgymryd â gwaith sylweddol i nodi holl blant sy'n derbyn addysg gartref ac ymgysylltu â nhw a'u teuluoedd gyda'r bwriad i'w perswadio i ailymuno ag addysg prif ffrwd. Cyfarwyddwr Addysg Sir Ddinbych oedd Cyfarwyddwr Arweiniol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru dros ranbarth Gogledd Cymru a'r arweinydd ar gyfer addysg gartref. Roedd gan y Cyngor wasanaeth Addysg yn y Cartref ardderchog, ffaith oedd wedi'i gydnabod gan Estyn mewn adroddiad arolygu diweddar;
- dywedodd os oedd plant yn absennol o'r ysgol ar sail feddygol yr ysgol oedd yn gyfrifol am ddarparu eu haddysg yn y tymor byr a chanolig.
Os oedd eu habsenoldeb o'r ysgol ar sail feddygol yn hirdymor byddai Addysg a Gwasanaethau Plant y Cyngor yn gwneud trefniadau iddynt gael eu haddysgu
- eglurwyd bod y prosiect 'Mesur y Mynydd' yn fenter Cymru gyfan a anelwyd at werthuso effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a deall profiadau pobl o ofal cymdeithasol yng Nghymru.
Roedd gan Sir Ddinbych gipolwg o'r prosiect hwn gan fod gofalwr o'r sir yn aelod o'r Panel. Byddai'n rhoi cyflwyniad ar waith y Panel a'i ganfyddiadau i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol agos. Byddai'r Cyfarwyddwr yn trefnu i ddosbarthu'r adroddiad cenedlaethol i'r aelodau pan fydd ar gael;
- cytunwyd er bod y derminoleg yn yr adroddiad ar adegau yn ymddangos yn anghyfarwydd e.e. dinasyddion ac ati, roeddent nawr yn cael eu defnyddio ym maes gofal cymdeithasol ac yn cymharu â therminoleg, fel 'cleient' neu 'defnyddiwr gwasanaeth';
- cadarnhawyd bod gwaith y Gwasanaeth Atal Digartrefedd ledled y sir ac nid wedi'i gyfuno i ogledd y sir yn unig, er bod y galw mwyaf am y Gwasanaeth yn ardal arfordirol y gogledd o'r sir.
- dywedwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) fel bwrdd iechyd lleol yr ardal.
Er nad oedd gweithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd bob amser yn hawdd neu'n ddelfrydol, roedd yn parhau i wella gyda phob partner bellach yn cydnabod blaenoriaethau a phwysau'r naill a'r llall;
- cadarnhawyd y byddai'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn archwilio diogelu ac yn diwallu anghenion y digartref yn y sir yn ogystal â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (CAMHS) yn ystod y misoedd i ddod;
- cydnabuwyd bod Dementia yn faes oedd yn achosi pryder cynyddol.

Roedd cefnogaeth sylfaenol a gwasanaethau lleol yn aml iawn y camau gorau i gefnogi dioddefwyr dementia a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Fodd bynnag, gyda chynnydd yn y nifer o bobl hŷn yn byw gyda dementia, rhagwelir y byddai Cymru mewn argyfwng yn fuan, yn debyg i'r hyn a ddigwyddodd yn Lloegr ychydig flynyddoedd yn ôl;

- pwysleisiwyd nad oedd y Cyngor wedi sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ac ariannu pwysau a nodwyd o fewn gofal cymdeithasol a Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, drwy gynllunio ariannol darbodus fel rhan o'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig, roedd wedi gallu rhyddhau £2filiwn ychwanegol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol yn 2019/20. Yn ogystal, roedd y Cyngor yn eithaf effeithiol am dynnu arian grant penodol i lawr i helpu i ddarparu elfennau penodol o'r gwasanaethau a ddarperir. Fodd bynnag, oherwydd yr union ffaith bod yr arian grant hwn yn gyfyngedig o ran amser byddai'n risg sylweddol bod yn ddibynnol arnynt yn y tymor hir, ac er bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi newid gwaith ataliad ac ymyrraeth gynnar o fod yn wasanaethau yn ôl disgrisiwn i rai statudol, nid oedd y Ddeddf wedi cydnabod hyn drwy sicrhau bod y cyllid ar eu cyfer wedi'i gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw. Roedd hyn yn parhau i gael ei dalu mewn ffurf arian grant, heb unrhyw sicrwydd hirdymor ynglŷn â'i argaeledd;
- cadarnhawyd bod 'chwythu'r chwiban' mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol bob amser yn her, er gwaethaf y ffaith y gellid ei wneud yn ddienw. Fodd bynnag, byddai'r Fframwaith Rheoleiddio ac Arolygu Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cynorthwyo gyda materion o'r fath. Roedd gan y Cyngor berthynas dda iawn gyda'r undebau o ran materion chwythu'r chwiban; a
- dywedwyd eu bod yn hyderus bod pythefnos o gyfnod ymgynghoriad cyhoeddus ar borthol Sgwrs y Sir y Cyngor yn ddigon o amser i drigolion ymateb i gynnwys yr adroddiad

Cytunodd y Cyfarwyddwr i gynnwys diffiniad, eglurhad a gwybodaeth cyd-destunol yn y ddogfen derfynol ar delerau fel 'Rhagnodi Cymdeithasol', 'Symud y Mynydd' ac ati. Hefyd cytunwyd i ymestyn y geiriau yn ail baragraff yr adran 'Arolwg Dweud Eich Dweud' ar dudalen 4 o'r adroddiad i ddarllen "... teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau i ofalu' ac aileirio'r paragraff ar 'Addysg Ddewisol yn y Cartref' ar dudalen 22 o'r adroddiad er mwyn egluro bod y "cynnydd o 50 i 100 o ddisgyblion nad ydynt yn derbyn addysg yn y cartref mwyach' yn golygu mewn gwirionedd eu bod bellach mewn addysg prif ffrwd.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, penderfynwyd:

PENDERFYNWYD: - yn ddarostyngedig i'r sylwadau uchod a chynnwys y newidiadau gofynnol, bod

- (i) yr adroddiad yn rhoi disgrifiad clir o berfformiad yn 2018/19; a
- (ii) bod y materion oedd yn achosi pryder yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad eisoes wedi eu cynnwys yn rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau'r Cyngor

7 COFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol adroddiad y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (dosbarthwyd yn flaenorol) oedd yn cyflwyno Cofrestr Risg Gorfforaethol i'r Pwyllgor yn dilyn ei adolygiad diweddar gan y Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol. . Ynghlwm i'r adroddiad oedd copi o'r gofrestr ddiwygiedig ynghyd â manylion y newidiadau a wnaed fel rhan o'r adolygiad diweddar a'r fethodoleg sgôr risg. Eglurodd yn ystod yr adolygiad diweddar y penderfynwyd bod angen ystyried risgiau oedd yn gysylltiedig â Brexit. Hefyd nodwyd bod ambell gam angen ei gwblhau. Rhagwelir erbyn adeg cynnal yr adolygiad nesaf byddai nifer o risgiau newydd neu rai wedi cynyddu wedi eu hychwanegu at y gofrestr. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau oedd yn ymwneud â lefel iawndal a allai fod yn daladwy i gyn-berchennog safle Ysbyty Gogledd Cymru a'r risgiau i'r Cyngor oedd yn ymwneud â'r dyletswyddau statudol arno o dan ddeddfwriaeth newydd sy'n ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, roedd y risg ddiwethaf hon yn ymddangos ar y Gofrestr Risg Gwasanaeth ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau gwnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- gadarnhau y byddent yn gwirio os oedd gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ymestyn i gynnwys aelodau corff llywodraethu ysgol ac os oedd y nifer o staff oedd wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu Diogelu, Trais yn Erbyn Menywod a Diogelu Data gorfodol wedi cynyddu o'r 59.8% a gofnodwyd yn Chwefror 2019.
- dywedwyd bod Cytundebau adran 106 yn y Gofrestr Risg Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ac roedd gwaith ar y gweill yn dilyn adroddiad Archwilio mewnol i integreiddio Cytundebau Adran 106 mewn Prosiectau Cynllun Corfforaethol; a
- dywedwyd bod darpariaeth cyrbau isel ar draws y sir yn ymddangos yn y Gofrestr Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Prifffyrdd a'r Amgylchedd.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

PENDERFYNWYD: - Ar ôl ystyried y newidiadau i'r Gofrestr Risg Corfforaethol, ac yn ddarostyngedig i ddarpariaeth y wybodaeth uchod, i dderbyn fersiwn diwygiedig o'r gofrestr.

8 EFFEITHIOLRWYDD ASESIADAU EFFAITH AR LES (WIA)

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol adroddiad y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (dosbarthwyd yn flaenorol) oedd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar weithredu ac effeithiolrwydd dull y Cyngor ar asesu effaith ei benderfyniadau, gan ddefnyddio ei Asesiad o Effaith ar Les ar y wefan. Yn ystod ei gyflwyniad hysbysodd yr Aelod Arweiniol y Pwyllgor bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi bod mewn bodolaeth ers peth amser, fodd bynnag nid oeddent bob amser wedi bod yn effeithiol neu'n ddarostyngedig i her neu archwilio digonol. Gyda chyflwyniad y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,

roedd Sir Ddinbych wedi gwneud penderfyniad rhagweithiol i ddatblygu Asesiad o Effaith ar Les i gynnwys pob agwedd o ofynion y Ddeddf tra'n parhau i ddiwallu gofynion deddfwriaethol eraill, er enghraifft yr angen i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Wrth fabwysiadu'r dull hwn, roedd y Cyngor wedi datblygu pecyn gwefan ar gyfer arwain adran i hwyluso cynnal Asesiad o'r Effaith ar Les, dull a ystyriwyd yn arfer da gan Swyddfa Archwilio Cymru. Drwy gynnal yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn defnyddio'r pecyn hwn, roedd gwybodaeth wedi'i chyflwyno i'r cynghorwyr mewn ffurf hawdd i'w deall fyddai'n helpu'r broses gwneud penderfyniad, tra byddai'n ofynnol i'r holl swyddogion ystyried yr effeithiau ar holl amcanion lles a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Roedd hyn yn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio i gynnal yr Asesiad o'r Effaith ar Les bob tro. Tynnodd yr Aelod Arweiniol sylw'r Pwyllgor at y gwahaniaethau a sylwyd drwy ymgymryd â'r dull hwn, gan gynnwys penderfyniadau gwell a her mwy effeithiol yr Asesiadau o Effaith ar Les. Er hynny, roedd yna le i wella ymhellach, ac o ganlyniad y rheswm dros adolygu eu heffeithiolrwydd.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol a'r Swyddog Cynllunio a Pherfformiad bod yr Asesiadau o'r Effaith ar Les a archwiliwyd fel rhan o'r adolygiad wedi bod o ansawdd amrywiol, rhai yn dioddef rhagfarn gan yr awdur ac eraill yn amlwg ddim yn dechrau'n ddigon buan yn y camau cynllunio ar gyfer y cynigion i'w hystyried. Roedd gwaith ar y gweill ar hyn o bryd gyda swyddogion i bwysleisio'r angen i ddechrau'r Asesiad o'r Effaith ar Les yn fuan tra'n ffurfio cynnig neu brosiect ac i barhau i'w ddiweddarau yn ystod ei oes. Roedd hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â phrosiectau mawr yr oedd y Cyngor yn bwriadu ymgymryd â nhw. Roedd y broses Grŵp Cyfaill Beirniadol ar gyfer herio Asesiadau o'r Effaith ar Les wedi profi'n arbennig o ddefnyddiol ac roedd yna gynlluniau i adfer y broses hon yn ffurfiol wrth symud ymlaen. Roedd cefnogaeth aelodau etholedig ar gyfer y broses yn allweddol ar gyfer llwyddo yn ogystal â'u rôl i herio'r Asesiadau o'r Effaith ar Les a gyflwynwyd iddynt.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau gwnaeth yr Aelod Arweiniol a'r Swyddog Perfformiad:

- gadarnhau nad oedd pob Asesiad o'r Effaith ar Les yn cael eu gwirio o ran ansawdd.
Roedd y Gwasanaeth Moderneiddio a Gwella Busnes yn dibynnu ar swyddogion i gysylltu â nhw am gymorth a chynghor os oeddent yn cael anhawster cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Les. Fodd bynnag, mewn rhai gwasanaethau e.e. y swyddogion yn delio gyda'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) roedd yna lefel uchel o arbenigedd cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Les ac roedd swyddogion o bob gwasanaeth arall yn cael eu hannog i weithio gyda'i gilydd lle bo'n bosibl i lunio Asesiadau o'r Effaith ar Les o ansawdd uchel.
- cadarnhawyd bod hawlfraint pecyn gwefan Asesiad o'r Effaith ar Les yn eiddo i Gyngor Sir Ddinbych.
Roedd nifer o awdurdodau lleol eraill wedi dangos diddordeb ynddo ac roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystyried defnyddio pecyn Sir Ddinbych, fodd bynnag, nid oedd Sir Ddinbych yn rhagweld y byddai'n cynhyrchu incwm sylweddol i'r awdurdod;

- dywedwyd bod yna ddogfen Cwestiynau Cyffredin ar fewnwyd y Cyngor i gynorthwyo cynghorwyr a swyddogion i herio Aseidiadau o'r Effaith ar Les; a
- cytunwyd i roi ystyriaeth i'r ffordd orau i roi cefnogaeth bersonol i gynghorwyr herio Aseidiadau o'r Effaith ar Les yn effeithiol wrth symud ymlaen e.e. drwy ddarparu sesiwn ar gyfer Briffio'r Cyngor, hyfforddi grŵp llai a digwyddiadau datblygu ac ati.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

PENDERFYNWYD: - yn ddarostyngedig i'r sylw uchod a darparu cefnogaeth i holl aelodau etholedig o ran sgiliau datblygu i herio ac archwilio Aseidiadau o'r Effaith ar Les yn effeithiol, i dderbyn canfyddiadau'r adolygiad o'r broses Aseiad o'r Effaith ar Les.

9 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018/19

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol adroddiad yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (dosbarthwyd eisoes) oedd yn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor o ran cynnydd y Cyngor i gyflawni canlyniadau ei Gynllun Corfforaethol ar ddiwedd Chwarter 4, 2018-19. I gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 roedd yr adroddiad hefyd yn manylu'r prosiectau Cynllun Corfforaethol a restrwyd ar gyfer eu cyflawni yn ystod y flwyddyn 2019-20. Yn ystod ei gyflwyniad, hysbysodd yr Aelod Arweiniol y Pwyllgor bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i aelodau ychydig yn gynt na'r blynyddoedd blaenorol, roedd hyn oherwydd nad oedd cynghorau wedi eu gorfodi eleni gan yr angen i gyhoeddi ystadegau'r Uned Data Llywodraeth Leol. Hysbysodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol yr aelodau bod y ddogfen cyflawniad blynyddol wedi'i chynnwys yn yr adroddiad, canlyniadau'r arolwg preswylwyr, y wybodaeth ddiweddaraf ar raglenni a phrosiectau a gyflawnwyd, ynghyd â chyfeiriadau at ddatblygiad cynaliadwy, amrywiaeth a chynnydd gwybodaeth cydraddoldeb ac astudiaethau achos.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol, Prif Weithredwr, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a'r Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad:

- bod y graffiau yn Atodiad 3 wedi eu hailgynhyrchu o'r System Rheoli Perfformiad Verto ac felly nid oeddent yn hawdd i'w dilyn na'u darllen mewn fformat printiedig;
- cytunwyd nad oedd data ar gysylltedd band eang, yn arbennig o ran etholaeth Gorllewin Clwyd yn galonogol, felly dyna'r rheswm bod y Cyngor wedi dynodi fel un o'i flaenoriaethau corfforaethol bod cymunedau wedi eu cysylltu a mynediad i nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da.
Roedd gan holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru bryderon o ran cysylltedd band eang a'i effaith posibl ar dwf economaidd, ffaith yr oedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi'i gydnabod. Oherwydd hynny, roedd wedi'i nodi fel y prif flaenoriaeth o dan Fargen Dwf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Roedd yr Aelod Arweiniol a swyddogion yn cydnabod bod cysylltedd band eang a chyflymder, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig yn

bryder mawr gan fod nifer o fusnesau bach wedi eu lleoli yn yr ardaloedd hyn oedd yn dibynnu ar gysylltedd digidol a di-wifr;

- ymgymryd â darparu gwybodaeth i aelodau ar sut fyddai llyfrgelloedd y Cyngor yn gallu cefnogi preswylwyr, yn arbennig pobl hŷn a diamddiffyn, i ymgeisio am fathodyn glas, a gwasanaethau eraill yn ddigidol. Roeddent hefyd yn cytuno i ddarparu gwybodaeth i'r pwyllgor ar y prosiect Ynysiad Digidol.
- cadarnhawyd er bod y Gofrestr Prosiect yn dangos 'Gweithrediadau Ailfodelu Gwasanaeth Gwastraff yn oren, roedd hyn oherwydd ei fod yn cynnwys gwaith cyfalaf i'w wneud yn y depos. Roedd swyddogion yn hyderus y byddai'r prosiect hwn yn cael ei ddarparu; a
- dywedwyd bod gan y Cyngor bolisi clir o ran absenoliaeth mewn ysgolion a'r mater o hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer absenoldeb anawdurdodedig. Er hynny, roedd gwahanol ysgolion yn defnyddio'r polisi mewn ffyrdd gwahanol. Roedd Addysg a Gwasanaethau Plant yn monitro'r sefyllfa hon yn agos.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Tîm Cynllunio Strategol ar lunio dogfen wedi'i hysgrifennu'n dda oedd yn hawdd i'w darllen ac yn llawn gwybodaeth. Hefyd gofynnodd gan fod enillydd y gystadleuaeth i ysgolion i ddylunio logo ar gyfer Statws Cyfeillgar i Wenyn y Sir wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar, i'r logo gael ei ddefnyddio yn y ddogfen derfynol cyn ei chyhoeddi.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

PENDERFYNWYD: - yn ddarostyngedig i'r sylwadau uchod a darparu'r wybodaeth ofynnol, i dderbyn a chymeradwyo perfformiad y Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau a dyletswyddau cysylltiol fel y manylwyd yn yr adolygiad perfformiad blynyddol 2018-19.

10 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Cytunodd y Pwyllgor i'r cais i ohirio cyflwyno'r adroddiad Enwi a Rhifo Stryd tan fis Tachwedd 2019 gan nad oedd swyddogion yn gallu mynychu ym mis Medi.

Hysbysodd y Cydlynnydd Craffu yr aelodau na fyddai canfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Defnyddio Plastig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi. Roedd hyn oherwydd bod y Rheolwr Prosiect ar gyfer y prosiect yn gadael y Cyngor yn y dyfodol agos a byddai angen swyddog newydd i reoli'r gwaith a'i yrru ymlaen.

Cododd y Cynghorydd Hugh Irving fater arall ynglŷn â gwaredu plastig. Mewn ymateb amlygodd y Cydlynnydd Craffu bod yna fodel gwastraff newydd yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Craffu ar Gymunedau ar gyfer mis Medi.

Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu wedi cytuno y dylai adroddiad ar Reoli Cyrff Llywodraethu Ysgolion gael ei gynnwys yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ar gyfer Gorffennaf 2019.

Roedd copi o "ffurflen gynnig Aelodau" wedi ei chynnwys yn Atodiad 2. Roedd y Cydlynnydd Craffu wedi gofyn i unrhyw gynnig gael ei gyflwyno iddi hi.

PENDERFYNWYD: - yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts ei bod yn bleser mynychu'r cyfarfod Gwasanaethau Cyfreithiol, HR a Democrataidd ac roedd yn canmol y Pennaeth Gwasanaeth am ei waith.

Tynnodd y Cynghorydd Hugh Irving sylw'r aelodau at yr adroddiad gwybodaeth 'Eich Llais' diweddaraf ar berfformiad y Cyngor yn delio gyda chwynion, oedd wedi'i gynnwys yn y ddogfen 'Briff gwybodaeth' a ddsbarthwyd i Aelodau'r Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	18 Gorffennaf 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Yr Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc/Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg
Teitl:	Rheoli Cyrff Llywodraethu Ysgolion

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Rôl yr Awdurdod o ran rheoli Cyrff Llywodraethu Ysgolion.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Egluro cwmpas, cylch gwaith a grym yr Awdurdod i sicrhau bod cyrff llywodraethu ysgolion yn cydymffurfio ym meysydd hyfforddiant gorfodol llywodraethwyr, swyddi gwag llywodraethwr ysgolion, a chydymffurfiant cyrff llywodraethu gyda disgwyliadau statudol o ran polisiau, cyllid a gweithdrefnau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn a thrafod y camau nesaf posib. Nodir, o safbwynt llywodraethu ysgolion ar gyfer nifer o'r meysydd a drafodir, gall yr Awdurdod ddylanwadu ac arwain cyrff llywodraethu, ond yn y pen draw y corff llywodraethu eu hunain sydd â'r cyfrifoldeb.

4. Manylion yr Adroddiad: Rôl yr Awdurdod

4.1.1 Mae gan yr Awdurdod bwerau penodol o ran rhai meysydd o lywodraethu ysgolion; fodd bynnag, mae cyrff llywodraethu eu hunain yn sefydliadau hunanlywodraethol ac maent yn llywodraethu yn rhinwedd gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998; drwy eu Cyfansoddiad eu hunain.

4.1.2 Mae'r Tîm Cefnogi Addysg, yn y Gwasanaethau Addysg a Phlant, yn darparu elfennau o gymorth i'r rheiny sy'n gwirfoddoli i fod yn llywodraethwyr yn eu hysgolion lleol. Mae'r cymorth a gynigir yn cyd-fynd â'r hyn mae llywodraethwyr Cymru'n ei ddarparu drwy eu gwasanaeth tanysgrifio. Mae hyn yn sicrhau y gall ysgolion gael mynediad uniongyrchol at gyngor a chyfarwyddyd ynglŷn ag unrhyw agwedd o Lywodraethu. Mae 46 o ysgolion Sir Ddinbych eisoes wedi tanysgrifio i Lywodraethwyr Cymru ac mae 6 wedi penderfynu peidio dewis eu gwasanaethau.

Noder: Roedd gan yr Awdurdod Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr hyd at 2015 pan gafwyd gwared ar y rôl.

4.1.3 Rhaid i'r Awdurdod ddarparu mynediad at hyfforddiant gorfodol i Lywodraethwyr. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant Cynefino a Data Ysgolion i bob Llywodraethwr newydd, yn ogystal â hyfforddiant penodol ar gyfer Cadeiryddion a Clercod. Mae disgwylid y bydd llywodraethwyr yn cwblhau'r hyfforddiant hwn o fewn yr amserlenni a nodwyd a disgwylir y bydd y corff llywodraethu yn cymryd camau gweithredu, gan gynnwys atal dros dro, os nad yw llywodraethwyr yn cydymffurfio. Mae pob Corff Llywodraethu yn deall y gofyniad hwn, ac mae'r Awdurdod wedi ategu'r pwynt hwn drwy ei daflenni ffeithiol a negeseuon e-bost rheolaidd at Gadeiryddion, gweler Atodiad 1.

4.1.4 Mae amserlenni yn gysylltiedig â chwblhau'r hyfforddiant hwn; disgwylir i bob Llywodraethwr gydymffurfio a hyn. Sef:

- Cyflwyniad ar gyfer llywodraethwyr newydd (i'w gwblhau o fewn 12 mis o'u penodi)
- Hyfforddiant Cadeiryddion (i'w gwblhau gan y cadeiryddion o fewn 6 mis o'u penodi)
- Hyfforddiant Clercod (i'w gwblhau gan y clercod o fewn 12 mis o'u penodi)
- Data ysgol (i'w gwblhau gan yr holl lywodraethwyr o fewn 12 mis o'u penodi)

Noder – Nid yw'r meini prawf uchod yn berthnasol i Lywodraethwyr oedd yn eu swyddi cyn newidiadau Rheoliadau 2011, ar y rhagdybiaeth eu bod wedi eu hyfforddi yn briodol cyn y dyddiad hwn a bod ganddynt brofiad perthnasol. Fodd bynnag mae'r Awdurdod wedi annog pob Llywodraethwr i gwblhau'r hyfforddiant ar-lein ac i ail-ymweld â'r hyfforddiant yn rheolaidd fel cyfle i adnewyddu.

4.1.5 Ar draws Gogledd Cymru mae'r awdurdodau yn cwrdd gyda'i gilydd (gyda GwE) yn rheolaidd er mwyn trafod Cefnogaeth Llywodraethwyr yn y rhanbarth. Mae'r grŵp hwn wedi datblygu hyfforddiant ar-lein, drwy Cynnal, ar gyfer yr holl unedau gorfodol. Mae'r Awdurdodau hynny sydd yn nwyrain y rhanbarth hefyd â threfniadau dwyochrog ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb, lle gall ein Llywodraethwyr fynychu sesiynau ei gilydd. Fodd bynnag, yn fwy diweddar mae blaenoriaeth wedi bod ar hyfforddiant ar-lein oherwydd nad oedd digon yn dewis hyfforddiant wyneb yn wyneb, a chost darparu.

4.1.6 Rhaid i'r Awdurdod ddarparu mynediad at hyfforddiant gorfodol am ddim i bob Llywodraethwr newydd. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y Cadeiryddion unigol yw sicrhau bod Llywodraethwyr yn cwblhau'r hyfforddiant o fewn yr amser penodedig yn y pen draw. Rhaid i'r Clercod hefyd gadw cofnod o hyfforddiant a statws pob Llywodraethwr. Mae hyn yn sicrhau bod Llywodraethwyr yn gallu gwneud eu dyletswyddau ar y cyrff llywodraethu. **Noder** – Mae'r Awdurdod yn cadw cofnodion ar gyfer ei Lywodraethwyr Awdurdod Addysg Lleol eu hunain.

4.1.7 Trefnir cynadleddau blynyddol arbennig i Lywodraethwyr gan yr Awdurdod i ddarparu hyfforddiant arbenigol ychwanegol a thrafodaethau mewn meysydd priodol. Yn Sir Ddinbych mae'r rhain yn boblogaidd ac mae llawer iawn o bobl

wedi bod arnynt yn y blynyddoedd diwethaf; yn rheolaidd mae dros 100 o Lywodraethwyr wedi mynychu i gynrychioli pob ysgol.

4.1.8 Mae Cymdeithas Llywodraethwyr weithredol gan yr Awdurdod sydd yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Defnyddir y Gymdeithas i ddarparu hyfforddiant ychwanegol, diweddariadau, ac i hyrwyddo trafodaeth. Mae hefyd yn gyfle i Lywodraethwyr herio'r Awdurdod yn ogystal â chael mewnbwn o ran gosod y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

4.1.9 Ar gyfer y rheiny sydd â diddordeb dod yn Lywodraethwr, mae gan yr Awdurdod broses gref er mwyn annog pobl i ddod yn llywodraethwyr; gydag adnodd ar ein gwefan i gofrestru diddordeb. Mae'r Awdurdod hefyd wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac wedi cynnal ymarferion recriwtio i hyrwyddo dod yn llywodraethwr. Lle mae swyddi gwag yn codi defnyddir y rhestr hon i lenwi'r llefydd gwag hynny. Mae cyrff llywodraethu hefyd wedi eu cyflwyno i'r arfer o ddadansoddi sgiliau, i sicrhau bod y cyfuniad cywir o sgiliau gan y Llywodraethwyr ar draws y corff llywodraethu. Mae'r broses o gyfethol llywodraethwyr newydd ar sail sgiliau hefyd wedi bod yn bwynt trafod yn Sir Ddinbych.

4.2 **Cyrff Llywodraethu: Polisiâu, Cyllid a Gweithdrefnau**

4.2.1 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth Llywodraethu mewn ysgolion, mae adnodd wedi'i ddatblygu gan Lywodraethwyr Cymru ar y cyd â Cynnal. Mae'r 'Adnodd Archwilio' ar-lein ar gael i bob ysgol yn Sir Ddinbych sy'n tanysgrifio i Lywodraethwyr Cymru; gan fod gan yr adnodd ddolenni cyflym at ganllawiau perthnasol ar eu gwefan. Ers 2 flynedd, mae'r Awdurdod wedi talu am yr adnodd hwn er mwyn sicrhau bod yr ysgolion hynny yn cydymffurfio. Mae Estyn hefyd yn ymwybodol o'i ddefnydd yn ein hysgolion; ei fod yn darparu ffordd gyflym a manwl o asesu nifer o feysydd cydymffurfio wrth eu harchwilio. **Noder** – Mae archwiliadau diweddar Estyn mewn ysgolion yn Sir Ddinbych wedi bod yn gadarnhaol iawn o safbwynt y mewnbwn sydd gan Lywodraethwyr a llywodraethu da yn ein hysgolion. Dangosir rhai enghreifftiau o'u hadroddiadau yn Atodiad 2.

4.2.2 Mae gan yr Awdurdod fynediad 'darllen yn unig' at yr adnodd archwilio, er mwyn cael trosolwg o bob ysgol. Mae hyn yn golygu y gellir targedu cymorth ar gyfer ysgolion neu glystyrau os nad ydynt eto'n cydymffurfio mewn meysydd penodol. Darperir templedi polisiâu a chanllawiau perthnasol gan yr Awdurdod hefyd ar ein gwefan er mwyn i ysgolion eu mabwysiadu. Dangosir rhestr o'r rhain yn Atodiad 3. Mae'r adnodd archwilio ei hun yn dangos nifer o elfennau o Lywodraethu mewn ysgolion, a dangosir y rhain yn Atodiad 4.

4.2.3 Mae cyrff llywodraethu yn dal yn y broses o gwblhau'r adnodd archwilio yn llwyr ar gyfer eu hysgol. Mae 98% yn defnyddio'r adnodd archwilio ar hyn o bryd ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion a Chyrff Llywodraethu'n ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae'r adnodd archwilio yn cynnwys gofynion statudol mewn meysydd fel polisi, diogelu, iechyd a diogelwch a chyllid. Mae gan ysgolion fynediad hefyd at restr wirio gynhwysfawr iawn ac archwiliad o ofynion llywodraethol effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth gyfredol.

4.2.4 O Dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, rhaid i bob corff llywodraethu ddatblygu eu Cyfansoddiad a'u Hofferyn Llywodraeth, a'i gyflwyno er cadarnhad i'r Awdurdod Lleol. Mae'r broses hon yn nodi'r cyfrifiad ar gyfer cyfanswm Llywodraethwyr, a phenodiadau'r Llywodraethwyr hynny, ar gyfer unrhyw ysgol.

4.3 Data Llywodraethwyr

4.3.1 Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cadw data ar Lywodraethwyr; fodd bynnag, dydy hynny ddim yn ofyniad gorfodol ac mae'n fesur ychwanegol a gymerir gan yr Awdurdod i sicrhau ein bod yn ymwybodol o'u statws unigol. Mae cadw'r wybodaeth hon ar draws holl ysgolion Sir Ddinbych yn aml yn anodd gan fod cyfanswm o 778 o Lywodraethwyr yn Sir Ddinbych. **Noder** - Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn treialu dull newydd o gael mynediad at gofnodion Clercod, yn ddiogel ac o bell, drwy Lwyfan Dysgu HWB yr ysgol a fydd yn gwella mynediad at eu gwybodaeth yn y dyfodol.

4.3.2 Allan o 778 mae 59 o swyddi llywodraethwyr yn wag (yn ogystal â 4 swydd Clerc gwag) fel a ganlyn

AAI	19	Cymuned Ychwanegol	6
Cymuned	11	Sylfaen	4
Staff	10	Athro/Athrawes	2
Rhiant	7	Clerc	4

Mae'r cyfanswm yn cynrychioli 7.5% o swyddi gwag ar draws pob ysgol.

4.3.3 Fel y nodir yn 4.1.9, mae'r Awdurdod dros y misoedd diwethaf wedi bod ag ymgyrch benodol i leihau'r nifer o swyddi llywodraethwyr AAI gwag a pharu llywodraethwyr newydd gyda lleoedd gwag. Mae'r ymgyrch hon yn dal i fynd ac mae'r Awdurdod wedi cysylltu â chyrrff llywodraethu ynglŷn â'r ymgeiswyr posibl, cyn gallu cadarnhau eu penodiadau. Ar hyn o bryd, mae 159 swydd AAI, y mae 140 ohonynt wedi eu llenwi.

4.3.4 Y nifer o Lywodraethwyr sydd mewn swyddi ar hyn o bryd y mae gofyn iddynt fod wedi cyflawni eu hyfforddiant gorfodol yw 566, hynny yw y Llywodraethwyr hynny a gymerodd eu swyddi ar ôl mis Medi 2011. Mae'r rheiny sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant (yn unol â chofnodion yr Awdurdod) fel a ganlyn:

Hyfforddiant Cynefino - 249 allan o 566 wedi cwblhau'r hyfforddiant (44%)

Hyfforddiant Data Ysgolion – 237 allan o 566 wedi cwblhau'r hyfforddiant (42%)

Hyfforddiant Cadeiryddion – 37 allan o 48 (4 x swydd wag) wedi cwblhau'r hyfforddiant (77%)

Hyfforddiant Cadeiryddion – 33 allan o 48 (4 x swydd wag) wedi cwblhau'r hyfforddiant (69%)

Noder: Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod gadw cofnodion gan mai rôl y Clerc yw hyn; fodd bynnag er mwyn sicrhau bod trosolwg gan yr Awdurdod o'r hyfforddiant, rydym yn monitro statws drwy gydol y flwyddyn. Mae'r ffigyrau hyn uchod yn cynrychioli trosolwg mwyaf diweddar yr Awdurdod, er bydd yr union ffigyrau ar gael gan y cyrff llywodraethu.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'n gysylltiedig â'r flaenoriaeth 'Mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio yn Sir Ddinbych, ac yn meddu ar y sgiliau i wneud hynny'.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les gan nad yw'r adroddiad hwn yn gysylltiedig â newid polisi.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Trafodaeth cam cyntaf yw hon.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dim angen.

10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r adroddiad yn amlygu'r risg o lywodraethwyr heb eu hyfforddi yn ddigonol er mwyn gwneud eu dyletswyddau ar y Corff Llywodraethu fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

Deddf Addysg 2002

Mesur Addysg (Cymru) 2011

Mae Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Craffu o ran datblygu ac adolygu polisiau.

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg

Ffôn: 01824 712692

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

HYFFORDDIANT GORFODOL I LYWODRAETHWYR

Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru bennu rheoliadau sy'n gwneud hyfforddiant ar rai pynciau penodol yn orfodol i Lywodraethwyr, yn benodol:

- Hyfforddiant cyflwyno ar gyfer yr holl lywodraethwyr sydd newydd eu penodi neu eu hethol.
- Hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion
- Hyfforddiant ar gyfer yr holl lywodraethwyr ar sut i ddeall a defnyddio data ysgolion.
- Pob clerc yn gorfod mynychu a chwblhau'r hyfforddiant

HYFFORDDIANT CYFLWYNO AR GYFER LLYWODRAETHWYR NEWYDD EU PENODI

Bydd yr hyfforddiant cyflwyno ar gyfer llywodraethwyr newydd eu penodi neu eu hethol yn canolbwyntio ar eu rolau a pharamedrau eu cyfrifoldebau ac yn eu darparu ag amlinellid bras o'r cyd-destun cyfreithiol y mae llywodraethwyr yn cynnal eu busnes oddi fewn iddo. Bydd deall y fframwaith hwn yn rhoi anogaeth a hyder i lywodraethwyr newydd gymryd rhan lawn a gweithredol yng ngwaith gwneud penderfyniadau'r corff llywodraethol.

HYFFORDDIANT AR GYFER CADEIRYDDION

Bydd yr hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion cyrff llywodraethu yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a chynnal perthnasau effeithiol gyda phartneriaid allweddol, e.e. penaethiaid, clerccod cyrff llywodraethol a'r awdurdod lleol, yn ogystal â rhoi'r sgiliau angenrheidiol i Gadeiryddion redeg corff llywodraethu effeithiol ac effeithlon a gweithio gydag a herio penaethiaid er mwyn codi safonau.

HYFFORDDIANT AR BERFFORMIAD YSGOL

Bydd hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgol yn helpu llywodraethwyr i ddeall yr hyn y mae data ysgolion yn ei olygu ar gyfer eu hysgol, sut y mae'r ysgol yn cymharu ag ysgolion mewn sefyllfa ac amgylchiadau tebyg ac yn eu helpu i weld beth sydd angen ei wneud i wella perfformiad. Bydd dealltwriaeth o ddata ysgol yn rhoi'r hyder angenrheidiol i lywodraethwyr gymryd rhan lawn yn nhrafodaethau'r wrdd ar faterion perthnasol i ddata ac i ofyn cwestiynau priodol a threiddgar.

HYFFORDDIANT AR GYFER CLERCOD

Bydd hyfforddiant ar gyfer clerccod yn canolbwyntio i raddau helaeth ar eu rôl o gefnogi cyrff llywodraethu, cadeiryddion a phenaethiaid fel y'i pennir yn Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mae cynnwys y rhaglen hyfforddi wedi'i ddylunio i roi gwell dealltwriaeth i glerccod o'u rolau a sut y mae hyn yn effeithio ar waith y corff llywodraethu, yn benodol eu perthynas a Chadeirydd corff llywodraethu a phenaethiaid.

BETH YW CYFRIFOLDEB Y CORFF LYWODRAETHU

Mae ar gyrrff llywodraethu gyfrifoldeb dros wahardd ac o bosibl ddiswyddo llywodraethwyr nad ydynt yn mynychu'r hyfforddiant gorfodol a bydd angen cadw cofnodion cywir a chyfredol o bresenoldeb er mwyn gwneud hyn. Yn y cyfarfod cyntaf, dylid dweud yn glir wrth lywodraethwyr newydd y bydd yn ofynnol iddynt fynychu'r cwrs cyflwyno gorfodol a'r hyfforddiant am ddata o fewn y cyfnod hyfforddi

angenrheidiol, oni bai fod y rheoliadau yn eu heithrio rhag gwneud hynny.

Os nad yw llywodraethwr yn cwblhau'r cwrs cyflwyno gorfodol a'r hyfforddiant data yn ystod cyfnod eu gwaharddiad, dylai'r Clerc a'r Cadeirydd fod yn ymwybodol o hyn drwy eu monitro eu hunain o'r sefyllfa. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r cadeirydd ysgrifennu at y llywodraethwr ar ddiwrnod olaf y gwaharddiad yn dweud wrthynt eu bod wedi'u diswyddo o'u swydd fel llywodraethwr ac y bydd corff llywodraethu'n chwilio am rywun i gymryd eu lle.

PWY SY'N GORFOD MYNYCHU'R HYFFORDDIANT CYFLWYNO?

Mae'n ofynnol i unrhyw lywodraethwr a etholwyd neu a benodwyd ar ôl y dyddiad pan ddaeth y rheoliadau hyn i rym fynychu'r cwrs cyflwyno gorfodol o fewn blwyddyn i'w penodiad neu eu hetholiad.

Bydd unrhyw lywodraethwr a fu yn eu swyddi am ddwy flynedd neu lai pan ddaeth y rheoliadau i rym (h.y. ers Medi 2011) nad ydynt wedi mynychu hyfforddiant cyflwyno'r awdurdod lleol, hefyd yn gorfod mynychu'r hyfforddiant cyflwyno o fewn blwyddyn o gyflwyniad y rheoliadau h.y. Medi 2013.

PWY SY'N GORFOD MYNYCHU'R HYFFORDDIANT DATA?

Mae'n rhaid i bob llywodraethwr a etholwyd neu a benodwyd (gan gynnwys am dymor arall yn y swydd) ar ôl y dyddiad y daeth y rheoliadau i rym h.y. Medi 2013, fynychu'r hyfforddiant data o fewn blwyddyn o'u penodiad neu eu hetholiad.

PWY SY'N GORFOD MYNYCHU HYFFORDDIANT AR GYFER CADEIRYDDION?

- Pob Cadeirydd corff llywodraethu a etholwyd am y tro cyntaf ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym ym Medi 2013.

- Unrhyw Gadeirydd corff llywodraethu a etholwyd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym na wnaethant fynychu'r hyfforddiant gorfodol o fewn dwy flynedd i'w hetholiad.

- Unrhyw Gadeirydd corff llywodraethu a etholwyd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym nad yw wedi mynychu hyfforddiant Cadeiryddion yr awdurdod lleol o fewn dwy flynedd cyn i'r rheoliadau ddod i rym - Medi 2011 - Awst 2013.

- Unrhyw Gadeirydd corff llywodraethu a etholir yn dilyn toriad perthnasol mewn gwasanaeth fel Cadeirydd.

PWY SY'N GORFOD MYNYCHU'R HYFFORDDIANT AR GYFER CLERCOD?

Mae'n ofynnol i holl glerccod cyrff llywodraethu a chlerccod pwyllgorau statudol fynychu'r hyfforddiant o fewn blwyddyn i'r amser pan ddaeth y rheoliadau i rym neu o fewn blwyddyn i'w penodiad.

GWYBODAETH YCHWANEGOL BWYSIG

Katie Hay

01824 712425

Katie.hay@denbighshire.go



MANDATORY GOVERNOR TRAINING

The Education (Wales) Measure 2011 includes provisions to allow the Welsh Ministers to make regulations to make governor training mandatory on specific issues specifically -

- Induction training for newly appointed or elected governors.
- Training for Chairs
